

Vaughan Gething AC/AM

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Ein cyf/Our ref MA-P/VG/3433/17

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

4 Hydref 2017

Annwyl Dai,

Ysgrifennaf ysgrifennu atoch mewn perthynas ag argymhelliad 1 o'r adroddiad yn dilyn adolygiad y Pwyllgor o Recriwtio Meddygol, a oedd yn gofyn imi lunio cynllun gweithredu ac amserlen ar gyfer sefydlu un corff newydd, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Roeddwn yn falch o weld bod y pwyllgor yn cefnogi'r cyfleoedd a ddaw yn sgil creu AaGIC, ond rwyf hefyd yn cydnabod y pryderon ynghylch yr wybodaeth ar y cynnydd a wneir tuag at ei greu.

Rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau y bydd AaGIC yn weithredol ar 1 Ebrill 2018. Bydd hynny'n golygu sicrhau bod y canlynol ar waith: y fframwaith deddfwriaethol ategol, bwrdd wedi'i gyfansoddi'n briodol, prif weithredwr, staff sydd wedi trosglwyddo o gyrrff sy'n bodoli eisoes a chyllideb y cytunwyd arni ochr yn ochr â llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru.

Cymerwyd camau sylweddol tuag at weithredu hyn ers i'r Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad ar recriwtio meddygol. Ym mis Gorffennaf, cyflwynais ddatganiad ysgrifenedig yn cyhoeddi enw'r corff newydd - Addysg a Gwella Iechyd Cymru - a nodi rhywfaint o'r meddylfryd mewn perthynas â nifer o agweddau allweddol, gan gynnwys:

- Swyddogaethau a Chylch Gwaith – Gan ddatblygu'r meysydd gwaith hynny a nodwyd yn adroddiadau Mel Evans a'r Athro Robin Williams, a swyddogaethau allweddol Deoniaeth Cymru a Gwasanaethau'r Gweithlu, Addysg a Datblygu (WEDS), rhoddais gadarnhad y byddai'r corff newydd hefyd yn gyfrifol am agweddau ar yr agenda ehangu mynediad; swyddogaeth gryfach o ran gwybodaeth am y gweithlu, gan ddatblygu'r gwaith y mae WEDS yn ei gyflawni ar hyn o bryd; a byddai hefyd angen ystyried cyrrff eraill mewn perthynas â throsglwyddo posibl, gan gynnwys Canolfan Addysg Fferylliaeth Broffesiynol Cymru ac Uned Gyswllt y GIG.
- Rhoddais gadarnhad y byddai AaGIC yn cael ei sefydlu fel Awdurdod Iechyd Arbennig, gan nodi'n glir y byddai AaGIC yn bartner cyfartal o amgylch bwrdd Gweithrediaeth GIG Cymru. Bydd hwn yn rhoi llwyfan i ddatblygu dull gweithredu strategol, nid yn unig o ran

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

addysgu a hyfforddi'r gweithlu iechyd, ond hefyd o ran mynd i'r afael â chynllunio'r gweithlu yn y dyfodol, er mwyn diwallu anghenion pobl Cymru yn well.

- Llywodraethu - Cyhoeddais hefyd fy mwriad i benodi Dr Chris Jones yn Gadeirydd dros dro ar y corff newydd, oherwydd fy mod yn cydnabod pwysigrwydd arweinyddiaeth gynnar yn ystod y broses bontio. Bydd Dr Jones yn ymgymryd â'r rôl hon ar 5 Hydref am gyfnod o 12 mis; a gwn y bydd yn defnyddio ei brofiad helaeth o'r GIG yng Nghymru i helpu i arwain y corff newydd tuag at broses weithredu lwyddiannus yn ystod y camau cynnar. Wrth gwrs bydd angen Cadeirydd parhaol ar AaGIC, ac felly rhoddais gadarnhad hefyd y byddai proses benodi lawn yn cael ei chynnal cyn diwedd mis Medi 2018.

Fel y dywedais yn fy natganiad, mae'r broses bontio i AaGIC yn cael ei rheoli drwy ddull Rhaglen dan arweiniad fy swyddogion. Mae Bwrdd Rhaglen wedi cael ei sefydlu, sy'n cynnwys aelodau o bob cwr o'r sector, i oruchwylio'r naw ffrwd waith, sef Cyllid, Llywodraethu, Swyddogaethau, Datblygu Sefydliadol, Pobl, Lleoliad, Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Systemau TG a Deddfwriaeth. Daw'r ffrydiau gwaith hyn â'r rhanddeiliaid allweddol o'r cyrff perthnasol a'r partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd.

Yn ogystal, mae cytundeb bellach wedi'i wneud mewn perthynas â throsglwyddo swyddogaethau rhwng Prifysgol Caerdydd, y Bartneriaeth Cydwasanaethau ac AaGIC. Mae'r rhain yn cynnwys y swyddogaethau o dan WEDS, Deoniaeth Cymru a Chanolfan Addysg Fferylliaeth Broffesiynol Cymru (WCPPE).

Rydym hefyd wedi dechrau'r broses o recriwtio Prif Weithredwr ac aelodau annibynnol ar gyfer y Bwrdd. Dylai hyn olygu y bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn dechrau ar eu swyddi cyn gynted â phosibl yn 2018, ond cyn mis Ebrill, er mwyn cynorthwyo'r broses bontio a gwneud penderfyniadau cynnar.

O ran deddfwriaeth, gosodais Orchymyn a Rheoliadau Sefydlu a Chyfansoddiad AaGIC y mis diwethaf. Bydd y rhain yn sefydlu AaGIC fel Awdurdod Iechyd Arbennig, yn darparu ar gyfer cyfansoddiad y Bwrdd a phenodi'r aelodau. Rhagwelir y byddant yn dod i rym yn ystod wythnos gyntaf mis Hydref.

Yn olaf, bu nifer o ddatblygiadau o ran darparu gwybodaeth ar gynnydd tuag at fis Ebrill 2018. Mae digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid a staff wedi cael eu hategu gan bresenoldeb ar y we a chylchlythyr rheolaidd. Mae digwyddiadau pellach ar gyfer rhanddeiliaid a staff wedi'u trefnu ar gyfer y misoedd i ddod.

Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno AaGIC yn parhau i fod yn uchelgeisiol. Yn dilyn y cynnydd hyd yma a nodwyd uchod, mae atodiad ynghlwm sy'n nodi'r amserlen a nifer o gerrig milltir allweddol dros y misoedd i ddod. Byddaf, wrth gwrs, yn sicrhau eich bod chi, a'r Pwyllgor, yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau dros y misoedd i ddod.

Yr eiddoch yn gywir,



Vaughan Gething AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

Ffrydiau Gwaith	Medi 17	Hyd 17	Tach 17	Rhag 17	Ion 18	Chwef 18	Maw 18
Swyddogaethu a Chylch Gwaith	Disgrifiadau manwl o swyddogaethau sy'n trosglwyddo o gyrff etifeddol	Datblygu'r manylion sy'n sail i'r swyddogaethau ychwanegol					Cytuno ar lythyr cylch gwaith ar gyfer y corff newydd ynghyd â chyllideb gysylltiedig.
Pobl – TUPE		Ymgysylltu â staff	Ymgynghoriad Ffurfiol a Diwydrwydd Dyladwy		Ymgysylltu â Staff, Ymgynghoriad Ffurfiol gan gynnwys anfon llythyrau		
Pobl – Prif Weithredwr a'r Tîm Uwch-swyddogion Gweithredol	Hysbysebu Swydd y Prif Weithredwr		Cyfweliadau ac asesiadau ar gyfer swydd y Prif Weithredwr			Dyddiad y disgwylir i'r Prif Weithredwr Ddechrau ar ei Swydd	
			Hysbysebu swyddi'r Tîm Uwch-swyddogion Gweithredol			Y Tîm Uwch-swyddogion Gweithredol wedi'i benodi	
Llywodraethu	Agor y broses recriwtio ar gyfer Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd				Penodi Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd		
Deddfwriaeth	Haen 1 Gosod Gorchymyn a Rheoliadau	Haen 1 Gorchymyn a Rheoliadau'n dod i Rym					Haen 2 gosod y ddeddfwriaeth